# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Cynnwys:


1. Celfyddydau Ymdrochol
2. Cymorth hygyrchedd
3. Y Cyllid
4. Sut a phryd i wneud cais
5. Ffurfiau ar gelfyddyd a beth sy'n gymwys
6. Y broses dethol


## Celfyddydau Ymdrochol

Rhaglen uchelgeisiol sy'n cael ei chynnal ar draws gwledydd Prydain dros gyfnod o dair blynedd yw Celfyddydau Ymdrochol, sy'n defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan artistiaid o weithio gyda thechnolegau ymdrochol.

Mae'r rhaglen gyffrous yma'n annog artistiaid o bob cefndir a phrofiad i archwilio, arbrofi neu

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

estyn sut maen nhw'n gweithio, neu sut hoffen nhw weithio, gyda thechnolegau ymdrochol.

Mae celfyddydau ymdrochol yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Rydyn ni'n ei ddiffinio fel creu celf gyda thechnoleg er mwyn mynd ati i ymgysylltu gyda chynulleidfa.

Meddyliwch am realiti rhithwir, ymestynnol ac estynedig:

- anelu at sawl synnwyr
- pontio'r bylchau rhwng gofodau ffisegol a digidol
- cysylltu pobl â'i gilydd a'r amgylchedd
- newid y ffordd rydyn ni'n meddwl ac yn creu.

Does dim rhaid i chi fod yn feistr ar dechnoleg (er y gallwch fod) er mwyn gwneud cais. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw meddwl chwilfrydig

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

ac ymarfer creadigol. Yna, drwy gymysgedd o gyllid, hyfforddiant, ymchwil a digwyddiadau, bydd rhaglen Celfyddydau Ymdrochol yn eich cefnogi chi i ddarganfod beth a sut rydych chi eisiau ei ddatblygu a'i greu.

Yn y bôn, y nod yw chwalu rhwystrau, gan wneud maes o ymarfer sy'n gallu bod yn eitha caeedig yn llawer mwy hygyrch i bawb. Yn hynny o beth, rydyn ni eisiau rhoi sylw i gymaint ag y gallwn ni o wahanol leisiau, er mwyn helpu i darfu ar ffyrdd sefydledig o fodoli, gwneud, meddwl a chreu.

Mae'n broses gydweithredol iawn – rydyn ni'n dysgu ar y cyd â chi. Drwy ymchwil integredig, byddwn yn rhannu dealltwriaeth am yr hyn sy'n gweithio orau i'r sector, ac yn creu cyfleoedd i gynulleidfaoedd o bob cefndir ymgysylltu.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Arweinyddiaeth gydweithredol

Mae rhaglen Celfyddydau Ymdrochol yn cael ei chynnal gan gonsortiwm cydweithredol o ddeg partner sydd wedi'u gwreiddio yng nghymunedau ymchwil a chelfyddydau ymdrochol gwledydd Prydain, ac sydd wedi ymrwymo i greu newid cadarnhaol yn y sector.

**Arweinydd y rhaglen:** Prifysgol Gorllewin Lloegr (UWE Bryste)
**Canolfan y rhaglen:** Pervasive Media Studio – gofod ymchwil a datblygu technoleg creadigol sy'n cael ei gynnal gan Watershed mewn partneriaeth â UWE Bryste a Phrifysgol Bryste
**Uwch gynhyrchydd:** Watershed

**Partneriaid ymchwil:**

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Prifysgol Bryste a Rhwydwaith Technoleg Ymdrochol Innovate UK

**Partneriaid cynhyrchu:**
**Lloegr:** Watershed, Bryste
**Gogledd Iwerddon:** Nerve Centre, Derry a Belffast
**Yr Alban:** Cryptic, Glasgow
**Cymru:** Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

**Partneriaid ar draws gwledydd Prydain:**
**Crossover Labs:** Datblygu artistiaid a hyfforddiant cyfryngau ymdrochol, Sheffield
**Unlimited:** Yn comisiynu artistiaid anabl ac yn newid canfyddiadau o anabledd, Wakefield
**Menter Amrywiaeth XR:** Yn hyrwyddo cynhwysiant yn y gymuned realiti ymestynnol, Llundain

Darperir cyllid ar gyfer rhaglen Celfyddydau

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Ymdrochol drwy gywaith rhwng Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau UKRI (yr AHRC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon. Darperir cyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon gan y Loteri Genedlaethol.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Cymorth hygyrchedd

**Beth sydd ar gael?**

Gallwch wneud cais i raglen Celfyddydau Ymdrochol drwy sain, fideo neu destun, a gwneud eich cais yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn Iaith Arwyddion Prydain. Os oes angen i chi wneud cais mewn fformat gwahanol neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi (fel dehonglwyr iaith arwyddion neu gymorth sgrifellu er enghraifft), yna cysylltwch â ni. Efallai y gallwn ni ddarparu cymorth ariannol.

Mae'r canllawiau ymgeisio ar gael yn y fformatau a'r ieithoedd canlynol:

- print bras
- hawdd ei ddarllen
- sain
- Iaith Arwyddion Prydain

- Saesneg.

Mae ein gwefan a'n porth ymgeisio yn gydnaws â darllenwyr sgrin/technolegau cynorthwyol eraill ac yn cyrraedd safonau WCAG 2.1 AA.

## Sut i ofyn am gymorth hygyrchedd

Os oes angen y wybodaeth yma arnoch mewn unrhyw fformat arall, os oes angen cymorth hygyrchedd arnoch i wneud cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am hygyrchedd, anfonwch e-bost aton ni neu ffoniwch neu anfonwch neges destun drwy 07926699909.

Sylwch mai dim ond yn ystod oriau gwaith y bydd rhywun ar gael i ateb y ffôn – os byddwch chi’n

ffonio y tu allan i'r oriau hynny, gadewch neges ac fe wnaiff rhywun eich ffonio’n ôl.

Y dyddiad cau ar gyfer cymorth hygyrchedd yw 4 Tachwedd 2024, sef pedair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sy'n rhoi ychydig o amser i ni i sicrhau eich bod chi’n gallu cael y cymorth sydd ei angen arnoch.

## Cymorth hygyrchedd i rai sy’n cael dyfarniad

Byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus am fanylion unrhyw ofynion hygyrchedd sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen, a phan fydd hynny'n berthnasol, gallwn ddarparu cyllid ychwanegol at y diben hwnnw.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Fel arfer bydd costau ar gyfer gweithwyr cymorth ac offer/technoleg hygyrchedd yn cael eu hariannu drwy raglen Mynediad at Waith. Rydyn ni'n annog artistiaid sy'n gwneud cais ac sydd â gofynion o'r fath i ddefnyddio rhaglen Mynediad at Waith er mwyn cael cymorth parhaus.

Gellir teilwra cymorth mentora a hyfforddi sy'n cael ei gynnig ochr yn ochr â'r cyllid ar gyfer y rhai
sydd â gofynion hygyrchedd a/neu ddyletswyddau gofalu.
Er enghraifft, bydd gan y Labordai Datblygu sy'n cael eu cynnal gan Crossover Labs fel rhan o'r dyfarniadau Arbrofi dri opsiwn amgen, hyblyg:

- **Preswyl**
  Un wythnos (pum diwrnod)

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- **Ar-lein**

  Pum diwrnod wedi'u gwasgaru dros bum wythnos

- **Llwybr hamddenol**

  Deg hanner diwrnod dros gyfnod hirach mewn ymateb i bob carfan, gydag opsiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Y Cyllid

Gyda £3.6 miliwn o gyllid ar gael tan 2027, bydd rhaglen Celfyddydau Ymdrochol yn ariannu dros 200 o artistiaid yng ngwledydd Prydain drwy dair ffrwd:

- Archwilio
- Arbrofi
- Estyn

Mae pob ffrwd wedi'i chynllunio i gefnogi artistiaid ar wahanol gamau yn eu datblygiad creadigol.

Gall artistiaid cymwys gyflwyno cais i un ffrwd ym mhob rownd ariannu, a gwneud cais eto am rowndiau dilynol dim ots a gawson nhw'u hariannu drwy gais cynharach ai peidio.
Dylai ymgeiswyr wneud cais am y symiau llawn sydd ar gael ym mhob ffrwd (h.y. £5,000, £20,000

neu £50,000). Does dim angen arian cyfatebol arnoch i wneud cais.

## Archwilio – £5,000

**Yn ddelfrydol ar gyfer:**

- artistiaid sydd heb ddim neu heb fawr ddim profiad ym maes celfyddydau ymdrochol
- unigolion, grwpiau neu sefydliadau creadigol bach (o 10 o bobl neu lai).

**Yn helpu artistiaid gyda:**

- archwiliad cyfnod cynnar o dechnolegau ymdrochol
- datblygu sgiliau a gwybodaeth celfyddydau ymdrochol sylfaenol
- profi gweithiau celf ymdrochol
- cwrdd â darpar gydweithwyr a phartneriaid

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- ehangu rhwydweithiau celfyddydau ymdrochol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cefnogi am hyd at chwe mis (h.y. am gyfnod eu prosiect arfaethedig) gan y cynhyrchwyr Celfyddydau Ymdrochol a'r rhwydwaith ehangach.

Fydd dim disgwyl i chi wneud darn o waith gyda'r cyllid, ond byddwn yn gofyn i chi rannu eich dysgu mewn ffordd ysgafn.

**Meini prawf ariannu ar gyfer Archwilio. Mae'r cynnig:**

- yn mynd i alluogi'r ymgeisydd i archwilio'r defnydd o dechnoleg ymdrochol mewn ffordd greadigol
- â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar ymarfer creadigol yr ymgeisydd

- ochr yn ochr â'r gyllideb a'r amserlen, yn glir, yn gyraeddadwy ac yn cael adnoddau priodol.

## Arbrofi – £20,000

**Yn ddelfrydol ar gyfer:**

- artistiaid sy'n barod i roi eu syniadau ar waith ac i brofi eu gwaith gyda chynulleidfa
- unigolion, grwpiau neu sefydliadau creadigol bach (o 10 o bobl neu lai).

**Yn helpu artistiaid:**

- i greu gweithiau arbrofol, profion o gysyniad neu brototeipiau i'w profi gyda chynulleidfaoedd bach
- i arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol mewn ffordd sy'n datblygu eu hymarfer

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- i ystyried materion hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i'w prosiect

**Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cefnogi am hyd at naw mis (h.y. am gyfnod eu prosiect arfaethedig) gyda:**

- hyfforddiant drwy ein Labordai Datblygu (sy'n cael eu cynnal gan Crossover Labs), a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu syniadau, profiad y defnyddiwr, ymagwedd a strategaeth cynulleidfa
- cyfleoedd i brofi a mireinio prototeipiau gyda chynulleidfaoedd bach.

**Meini prawf ariannu Arbrofi. Mae'r cynnig:**

- yn mynd i alluogi'r ymgeisydd i arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol o fewn eu hymarfer creadigol mewn ffordd newydd a/neu gadarnhaol

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- â'r potensial i gael ei brofi gyda chynulleidfaoedd bach, i fagu dealltwriaeth ar gyfer datblygu ymarfer creadigol yr ymgeisydd a/neu'r sector yn ehangach
- yn cynnwys ystyriaethau hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant perthnasol a phriodol
- ochr yn ochr â'r gyllideb a'r amserlen, yn glir, yn gyraeddadwy ac yn cael adnoddau priodol.

## Estyn – £50,000

**Yn ddelfrydol ar gyfer:**

- artistiaid sydd â phrosiect ymdrochol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu
- sefydliadau a chasglebau creadigol (o 50 o bobl neu lai).

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

**Yn helpu artistiaid:**

- i ddatblygu prosiectau neu brototeipiau presennol yn sylweddol
- i droi cysyniadau sydd wedi'u datblygu yn waith mwy terfynol gyda chymorth cynhwysfawr
- i wella cyrhaeddiad ac ymgysylltiad â’r gynulleidfa
- i ystyried materion hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i'r prosiect

**Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cefnogi am hyd at 12 mis (h.y. am gyfnod eu prosiect arfaethedig) gyda:**

- mentora pwrpasol gan Crossover Labs, partneriaeth a rhwydwaith Celfyddydau Ymdrochol

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- cymorth i ddatblygu eu prosiect a'i roi ar waith
- cyfleoedd i wella ac ehangu effaith eu gwaith.

**Meini prawf ariannu Estyn. Mae'r cynnig:**

- yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiect/prototeip ymdrochol sy'n bodoli
- yn galluogi'r ymgeisydd i estyn sut mae technoleg ymdrochol yn cael ei defnyddio o fewn eu hymarfer creadigol mewn ffordd newydd a/neu gadarnhaol
- yn cyflwyno uchelgais clir ar gyfer cyrraedd cynulleidfa drwy gelfyddydau ymdrochol, naill ai o ran dyfnder ymgysylltu neu raddfa cyrhaeddiad
- yn cynnwys ystyriaethau hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant perthnasol a phriodol

- ochr yn ochr â'r gyllideb a'r amserlen, yn glir, yn gyraeddadwy ac yn cael adnoddau priodol, gyda thîm cryf yn ei le i'w gyflawni.

## Sut a phryd i wneud cais?

**Mae'r rownd gyntaf o gyllid ar gyfer pob un o'r tair ffrwd ar agor tan ganol dydd, dydd Llun 2 Rhagfyr 2024.**

### Llinell amser rownd un

| Ffrwd ariannu | Dyddiad cau | Hysbysu ymgeiswyr | Hyd prosiectau |
|---|---|---|---|
| **Archwilio** | 2 Rhagfyr 2024 | Chwefror 2025 | Mawrth – Awst 2025 |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arbrofi** | 2 Rhagfyr 2024 | Chwefror 2025 | Mawrth – Tachwedd 2025 |
| **Estyn** | Mae gan y ffrwd yma ddau gam i'r broses ymgeisio, er mwyn helpu i ddiogelu amser ac egni artistiaid. | | |
| **Cam un mynegi diddordeb** | 2 Rhagfyr 2024 | Canol Ionawr 2025 | Mawrth 2025 – Chwefror 2026 |
| **Cam dau cyfweliad** | Dechrau Chwefror 2025 | Chwefror 2025 | |

## Sut i wneud cais

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

I wneud cais am grant, bydd angen i chi greu cyfrif yn ein porth ymgeisio. Rydyn ni'n argymell darllen y canllaw cam wrth gam yma cyn i chi ddechrau eich cais.

Gallwch gadw'ch cais a dychwelyd ato – does dim rhaid ei orffen mewn un eisteddiad.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r holl adrannau gofynnol ac yn uwchlwytho'r holl ddogfennau gofynnol cyn cyflwyno'r cais. Os oes angen help arnoch gydag unrhyw beth, cysylltwch â ni.

Gwnewch gais nawr i:

- Archwilio
- Arbrofi
- Estyn

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Canllawiau ar ddogfennau ategol

Gallwch uwchlwytho dogfennau neu ddolenni i gefnogi'ch cais, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

**Dolenni gwe**

Rhowch ddolenni at dudalennau penodol, prosiectau penodol, erthyglau penodol, ac ati, yn hytrach na gwefan gyffredinol.

**Uchafswm o dair tudalen neu sleid ddylai fod mewn dogfen, a ddylai dogfen ddim bod yn fwy na 5MB.** Rydyn ni’n derbyn y fformatau canlynol – .pdf/ .doc/ .docx/ .ppt/ .pptx/ .xls/ .xlsx

**Ddylai ffeiliau delwedd ddim bod yn fwy na 5MB**

Rydyn ni’n derbyn y fformatau canlynol – .jpeg/ .jpg / .png/ .gif

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- **Ddylai ffeiliau fideo ddim bod yn fwy na 10MB**
  Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp4/ .mov/ .avi

- **Ddylai ffeiliau sain ddim bod yn fwy na 10MB**
  Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp3/ .wav/ .aac

Sylwch mai dim ond gwerth deg munud o ffeiliau sain a fideo y gallwn ni eu hystyried. Os yw'r ffeil rydych chi'n ei rhannu yn hirach na hynny, nodwch y codau amser ar gyfer y deg munud yr hoffech i ni ei ystyried.

## Ffurfiau ar gelfyddyd a beth sy'n gymwys

**Y meini prawf i fod yn gymwys**

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Rydych chi'n gymwys i wneud cais am grant Celfyddydau Ymdrochol:

- os ydych chi'n artist unigol, yn ymarferydd creadigol neu'n dechnolegydd creadigol
- os ydych chi'n sefydliad celfyddydol, yn grŵp bach neu'n gasgleb (deg o bobl neu lai ar gyfer Arbrofi ac Archwilio, hyd at 50 o bobl ar gyfer Estyn)
- os ydych chi'n byw yng ngwledydd Prydain
- os ydych chi'n 18 oed neu'n hŷn  os oes gennych gyfrif banc yng ngwledydd Prydain yn eich enw eich hunan.

Gweler hefyd y meini prawf ar gyfer pob ffrwd ariannu ar dudalennau 10-16

## Beth sy'n cyfrif fel celfyddyd ymdrochol?

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Rydyn ni’n gwybod bod gan y term ‘celfyddyd ymdrochol’ lawer o ystyron i wahanol bobl ac ar draws llawer o sectorau. Ar gyfer y rhaglen yma, rydyn ni’n golygu celf sy'n defnyddio technoleg er mwyn mynd ati i gynnwys y gynulleidfa.

Mae gyda ni ddiddordeb yn y defnydd o realiti rhithwir, ymestynnol ac estynedig wrth greu gwaith celf sy’n pontio gofodau ffisegol a digidol, yn anelu at sawl synnwyr, ac yn cysylltu pobl â’i gilydd a/neu â’u hamgylchedd.

Gweler yr enghreifftiau o dechnolegau ymdrochol isod. Rydyn ni’n croesawu ceisiadau sy’n dadlau’r achos dros ddefnyddio technolegau eraill sy’n galluogi cynulleidfa i chwarae rhan weithredol yn y gwaith celf.

- **Realiti Rhithwir (VR)**

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Prosiectau sy'n creu amgylcheddau digidol, sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio mewn byd sydd wedi'i greu gan gyfrifiadur gan ddefnyddio dyfeisiau fel rheolyddion symud a

- **Realiti Estynedig (AR)**
  Prosiectau sy'n gosod cynnwys digidol (cynnwys gweledol neu sain fel arfer) ar ben y byd ffisegol drwy ddyfeisiau fel ffonau clyfar, llechi neu sbectol AR, gan ychwanegu at ganfyddiad y defnyddiwr o'u hamgylchedd.

- **Realiti Cymysg (MR)**
  Datblygiadau sy'n asio bydoedd go iawn a bydoedd rhithwir er mwyn creu amgylcheddau newydd lle mae gwrthrychau ffisegol a digidol yn cydfodoli ac yn rhyngweithio mewn amser go iawn, yn aml gan ddefnyddio clustffonau â galluoedd

'pasio drwodd' fel y Meta Quest 3 neu'r Apple Vision Pro.

- **Realiti Ymestynnol (XR)**
  Term cyfunol sy'n cwmpasu VR, AR, a MR, gan gyfeirio at yr holl amgylcheddau sy'n cyfuno'r ffisegol a'r rhithwir a rhyngweithiadau rhwng pobl a pheiriannau wedi'u creu gan dechnoleg gyfrifiadurol a thechnoleg wisgadwy.

- **Cyfrifiadura gofodol**
  Prosiectau sy'n defnyddio mapiau gofodol a thechnolegau canfyddiad i greu profiadau rhyngweithiol yn y gofod ffisegol, gan alluogi rhyngweithio greddfol rhwng y defnyddiwr a chynnwys digidol.

- **Fideo 360 gradd**

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Defnyddio technoleg fideo ymdrochol i greu profiadau adrodd straeon deniadol a rhyngweithiol, gan alluogi defnyddwyr i edrych o gwmpas ac archwilio golygfa i bob cyfeiriad.

- **Sain gofodol**
  Prosiectau sy'n defnyddio effeithiau sain 3D i osod sain o gwmpas gwrandäwr mewn 360 gradd.

- **Sain deuglust**
  Prosiectau sy'n defnyddio techneg sain stereo sy'n rhoi ymdeimlad o ofod a phellter i gynulleidfaoedd.

- **Adborth cyffyrddiadol a synhwyraidd**
  Ymgorffori adborth cyffyrddiadol a thechnolegau synhwyraidd eraill i wella'r

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

profiad ymdrochol, gan wneud i'r rhyngweithiadau digidol deimlo'n fwy real a chyffrous.

- **Amgylcheddau ymatebol**
  Gosodweithiau sy'n defnyddio technoleg fel synhwyro dyfnder, symud, sain neu gyffwrdd i gydnabod ac ymateb i bresenoldeb y gynulleidfa mewn ffyrdd creadigol a dychmygus.

Nod y rhaglen ariannu yw creu cyfleoedd cynhwysol a hygyrch drwy chwalu'r rhwystrau i artistiaid o bob cefndir ymgysylltu ag offer ymdrochol.

Felly mae pob ffurf ar gelfyddyd yn gymwys, dim ond i'r ymgeisydd allu dangos diddordeb go iawn mewn archwilio, arbrofi, neu estyn eu defnydd o

dechnolegau ymdrochol yn eu hymarfer creadigol. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn cefnogi cynyrchiadau dwyieithog neu amlieithog.

## Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian?

Bydd angen i chi amlinellu cyllideb fel rhan o'ch cais. Sylwch fod y pwyslais a'r meini prawf ar gyfer pob un o'r tair ffrwd ariannu yn wahanol.

Darllenwch y trosolwg byr ar gyfer pob ffrwd i gael rhagor o wybodaeth:

- Archwilio
- Arbrofi
- Estyn

Ar gyfer rhaglen Celfyddydau Ymdrochol does dim gofyn i chi fod ag arian cyfatebol er mwyn gwneud cais.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

**Costau sy'n gymwys**

- **Datblygu prosiect**
  Cynllunio, ymchwilio a datblygu, a rhoi prosiectau celfyddydau ymdrochol ar waith.

- **Deunyddiau ac offer**
  Prynu neu rentu deunyddiau, offer, trwyddedau meddalwedd ac offer technegol eraill.

- **Ffioedd proffesiynol**
  Taliadau i artistiaid, cydweithwyr, cymorth technegol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r prosiect (gweler y manylion ar gyflog teg isod).

- **Ffioedd hyfforddi**
  Cymorth neu ddysgu ffurfiol neu anffurfiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- **Teithio, llety a chynhaliaeth**
  Ar gyfer cyweithiau, ymchwil, preswyliadau, mynychu digwyddiadau, gweithdai neu weithgareddau sy’n gysylltiedig â phrosiectau perthnasol.

- **Marchnata/datblygu cynulleidfa** Ar gyfer ffrydiau Arbrofi ac Estyn yn unig.

- **Llogi safleoedd**
  Stiwdios neu ofodau sydd eu hangen ar gyfer datblygu prosiect, ymarferion, digwyddiadau neu arddangosfeydd.

- **Hygyrchedd a chynhwysiant**
  Costau sy'n cefnogi cyfranogiad ac ymgysylltiad â chynulleidfa mewn ffordd hygyrch, amrywiol a chynhwysol (e.e.

dehonglwyr iaith arwyddion, capsiynau, creu fformatau hygyrch, ac ati).

Does dim angen i ddarpariaethau hygyrchedd ar gyfer artistiaid sy’n cael eu hariannu, fel gweithwyr cymorth, dehonglwyr a chostau teithio sy'n gysylltiedig â dileu rhwystrau i weithio, gael eu cynnwys yn y gyllideb yma.

Byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus am fanylion eu gofynion hygyrchedd ar ddechrau'r rhaglen, ac yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol yn eu lle.

## Costau sydd ddim yn gymwys

Er bod prosiect Celfyddydau Ymdrochol yn anelu i ddarparu cymorth cynhwysfawr ar gyfer datblygu celfyddydau ymdrochol, mae rhai

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

gweithgareddau a chostau penodol nad ydyn nhw’n gymwys i gael cyllid.

Bydd deall y costau yma nad ydyn nhw’n gymwys yn helpu i sicrhau bod eich cais yn cyd-fynd â’r meini prawf a’r hyn sy’n gymwys i gael cyllid.

**Enghreifftiau o gostau sydd ddim yn gymwys:**

- gwariant cyfalaf
- gorbenion / costau rhedeg cyffredinol nad ydyn nhw’n gysylltiedig â'r prosiect
- ad-dalu dyledion
- gweithgareddau sydd ddim yn artistig
- digwyddiadau codi arian
- offer nad ydyn nhw’n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect
- ffioedd dysgu ac addysg ffurfiol
- prosiectau mewn lleoliadau addysg ffurfiol (e.e. gweithgarwch gan fyfyrwyr fel rhan o’u cwricwlwm academaidd)

- costau sydd wedi'u talu eisoes gydag incwm neu gyllid arall
- alcohol

Fel grant, mae'r cyllid yma'n cynnwys unrhyw dreth ar werth (TAW) a allai fod yn berthnasol. Felly dylech gyllidebu ar gyfer unrhyw dreth ar werth berthnasol sy'n gysylltiedig â chynnig eich prosiect.

Os nad ydych yn siŵr am gostau sydd ddim yn gymwys, cysylltwch â ni.

## Canllawiau ar gyflog teg

Mae sicrhau cyflog teg i bob unigolyn sy'n ymwneud â'ch prosiect yn egwyddor allweddol o raglen Celfyddydau Ymdrochol. Disgwyliwn felly i

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am gyllid i sicrhau eu bod yn eu talu eu hunain, ac yn talu eraill sy'n ymwneud â'u prosiect, yn deg. Mae cyflog teg yn helpu i gynnal safonau'r diwydiant, yn cefnogi cynaliadwyedd yn y celfyddydau ac yn meithrin amgylchedd gwaith proffesiynol a pharchus.

Pan fo hynny'n berthnasol ac yn briodol, rydyn ni'n disgwyl i ymgeiswyr ddatgan tâl safonol priodol ar gyfer y diwydiant yn eu cyllidebau.

Fe allai'r adnoddau yma eich helpu i ymgorffori cyflog teg yn adran gyllideb eich cais am gyllid:

- Undeb Artistiaid Lloegr
- Undeb Artistiaid yr Alban
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Cwmni Gwybodaeth Artistiaid a-n
- Ymgyrch Dim Byd am Ddim Byd Unlimited

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Y broses ddethol

Mae deall sut bydd eich cais yn cael ei werthuso yn hanfodol i sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf a'r nodau ariannu, ac yn rhoi'r cyfle gorau iddo gael ei ddewis.

Gweler y manylion isod am ein proses ddethol ar gyfer rownd ariannu gyntaf rhaglen Celfyddydau Ymdrochol.

## Sut bydd fy nghais yn cael ei werthuso?

- Unwaith y caiff ei gyflwyno, bydd eich cais yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod wedi'i

gwblhau'n gywir a'i fod yn bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys

- Fydd ceisiadau sydd ddim yn bodloni'r meini prawf yma ddim yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

**Sgorio a gwerthuso yn ôl y meini prawf**

- Bydd ceisiadau sy'n gymwys yn cael eu hadolygu gan banel o arbenigwyr ym maes y celfyddydau ymdrochol, sy'n cynnwys adolygwyr o ystod eang o gefndiroedd, gan adlewyrchu gwerthoedd y rhaglen o ran hygyrchedd, cynhwysiant ac amrywiaeth.

- Bydd y panel yn adolygu, yn trafod ac yn rhoi pob cais mewn trefn yn seiliedig ar feini prawf ariannu penodol y ffrwd ariannu berthnasol.

**Cyfweliad (Estyn yn unig)**

- Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer ffrwd Estyn yn cael gwybod ganol mis Ionawr 2025 ac yn cael eu gwahodd i gyfweliadau ddechrau mis Chwefror 2025.

- Bydd yr amserlen yn cael ei chadarnhau pan fydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno ac fe fyddwn ni'n darparu trosolwg manwl o'r broses gyfweld ymlaen llaw.

## Cydbwyso portffolios

- Bydd proses derfynol o guradu a chydbwyso'n cael ei chynnal gan bartneriaid cenedlaethol y consortiwm Celfyddydau Ymdrochol, er mwyn sicrhau cohort cytbwys o

ran amrywiaeth o syniadau, ffurfiau ar gelfyddyd, lleoliad daearyddol ac amrywiaeth profiadau bywyd.

- Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod ym mis Chwefror 2025 a yw eu cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

## Adborth ar geisiadau

Gan ein bod yn disgwyl nifer fawr o geisiadau, fyddwn ni ddim yn gallu rhoi adborth unigol. Ond rydyn ni wedi ymrwymo i rannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r rhaglen – byddwn yn ysgrifennu adroddiad byr yn myfyrio ar y rownd gyntaf o geisiadau a pham y dewiswyd yr ymgeiswyr oedd ar y rhestr fer.